# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

**Clerc:** Jane Jenkins, 2 Talybont, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1UA
clerc@cyngor-llangelynnin-council.org.uk

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher 11.12.24 am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Presennol: David Griffiths - Cadeirydd (DG), Geraint Edwards – Is Gadeirydd (GE), Huw Davies (HD), Ian Williams (IW), Jenny Warne (JW), Keith Carroll (KC), Jane Jenkins (JJ) – Clerc.

1. **Ymddiheuriadau:** Geraint Micah, Jane Lawrence, Megan Griffiths.

2. Croeso'r Cadeirydd: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2.1 Datgan Diddordeb: **Dim.**

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:**

**PENDERFYNWYD:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13.11.24 yn gywir.
**Cynnig:** JW **Eiliwyd:** GE **Arwyddwyd:** DG

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (13.11.24):**

**a) Coeden Onnen yn y Cae Chwarae** – Gwaith wedi ei wneud, ond nododd HD eu bod heb dynnu a cael gwared or eiddew yn unol â'r dyfynbris. Derbyniwyd anfoneb bellach am y gwaith.

**GWEITHREDU:** Clerc i anfon e-bost at y Contractwr i ofyn i'r eiddew gael ei glurio cyn gynted a phosib gan fod hyn yn rhan o'r dyfyniad gwreiddiol. *Arwyddwyd siec yn barod ar gyfer yr anfoneb - ond taliad i'w wneud pan y bydd y gwaith sy'n weddill wedi'i gwblhau.* Unwaith y byddai'r clerc yn cael gwybod gan y contractwr fod y gwaith wedi ei gwblhau, byddai yn hysbysu aelodau'r Cyngor, iddynt archwilio'r safle, ac os yn foddhaol, clerc i dalu'r anfoneb.

**b) Gwefan y Cyngor** – Mae'r wefan newydd bellach yn fyw, ond y Clerc yn dal i gael trafferth cael gwared ar yr hen wefan ac mae HG Web Designs wedi bod yn ceisio cynorthwyo gyda hyn. Gofynnwyd i GE a fyddai Glenda yn gallu cael mynediad i'r hen wefan i allu cael gwared o'r holl gynnwys oedd ar yr hen wefan a sefydlu dolen i'r wefan newydd. Nododd GE y dylai'r cais yma ddod o'r Cyngor Cymuned yn uniongyrchol.

**GWEITHREDU:** JJ i ysgrifennu at Glenda yn gofyn a fyddai hi'n fodlon cynorthwyo gyda hyn, os ydi yn gallu cael mynediad i'r hen wefan.

5. Gohebiaeth wedi eu derbyn:

a) **Ymddiswyddiad N Roberts** – Derbyniwyd e-bost yn hysbysu'r Cyngor Cymuned fod NR wedi ymddiswyddo.

**PENDERFYNIAD:** Derbyniodd y Cynghorwyr yr ymddiswyddiad. Hysbyseb i'w osod ar gyfer y sedd wâg ac hefyd hysbysu Cyngor Gwynedd
**GWEITHREDU:** JJ i gydnabod yr e-bost gan NR, hysbysebu sedd wâg ar y Cyngor Cymuned ag hysbysu Cyngor Gwynedd.

6. Materion Cynllunio: **Dim.**

7. **Materion Ariannol:**

a) Adroddiad Ariannol Mis Tachwedd
**PENDERFYNWYD:** Adroddiad Ariannol Mis Tachwedd 2024 wedi ei gymeradwyo yn gywir.
**Cynnig:** IW **Eiliwyd:** JW **Arwyddwyd:** DG

b) **Taliadau** – Cyflog y Clerc - Tachwedd a Rhagfyr. Rhent Y Ganolfan ar gyfer 2024/25.
Anfonebau gan Un Llais Cymru x 2, Dyfi Tree Care, HG Web Designs, Glenda Edwards, Keith Carroll.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'n unfrydol yr holl daliadau a sieciau wedi'u llofnodi.
**GWEITHREDU:** Clerc i wneud y taliadau perthnasol.

c) **Cyllideb 2025/26**
Cafwyd drafodaethau ynglŷn â gwariant ac incwm hyd yma, yn ogystal â gwariant a ragwelir ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon, a pha daliadau oedd eto i'w derbyn, h.y. ad-daliad TAW, ad-daliad gan Cyngor Gwynedd am y gwaith ar geg yr afon ag ati. Costau a ragwelir ym mlwyddyn ariannol 2025/26 wedi eu trafod cyn cytuno ar swm y cais praesept am y flwyddyn 2025-26. (£14,405)

**GWEITHREDU:** JJ i baratoi dogfen gyllidebol newydd i gynnwys sylfaen treth ar gyfer 25/26 a Band D ardoll, diweddaru'r ffigurau arian a neilltuwyd yn y datganiad ariannol i adlewyrchu taliadau arian wedi'i wneud, a heb ei wario, ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.
Copïau i'w hanfon at bob Cynghorydd, iddynt eu hadolygu, cyn cyflwyno y cais am y praesept.

JJ i fynd ar ôl yr ad-daliad TAW, ac e-bostio Cyngor Gwynedd ynglyn a'r cyfraniad a gytunwyd ar, tuag at y gwaith a gafodd ei wneud ar geg yr afon.

d) **Cyflog y Clerc - (Cyfarfod Arbennig 6/12/24)**
Gofynnwyd i JJ adael yr ystafell a chwblhau ffurflen "datgan diddordeb", i'r Cynghorwyr gael trafod cofnodion y cyfarfod arbennig ynglyn â'i chyflog.
**Gan fod materion cyflogaeth yn gyfrinachol, dyw'r manylion ddim ar gael i'r cyhoedd â'r wasg, ond mae copi o'r cofnodion y cyfarfodydd arbennig ar ffeil os bydd eu hangen o fewn Archwiliad 2024/25.**

**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd ar y telerau.
**GWEITHREDU:** Ymdrin â PAYE yn unol â Chofnodion y Cyfarfod Arbennig 06.12.24.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr: Dim**

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol: Dim**

10. **Unrhyw Fater Arall:**
a) Awgrymodd GE dynnu'r Coed Nadolig i lawr ar y 4ydd neu 5ed o Ionawr – i'w drafod yn nes at yr amser.
b) Atgoffodd DG bawb fod y "Tractor Run" i godi arian at achosion lleol ar y 22.12.24 a bod angen cynorthwywyr.

*Cyfarfod wedi dod i ben am 9.40yh.*

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher – 12.02.25 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwril

Arwyddwyd
Cadeirydd ............................................ Dyddiad 12/2/25